# Sunproofed: Astudiaeth Gwmpasu Dulliau Cymysg o Bolisïau Diogelwch yn yr Haul yng Nghymru

## Arolwg o Holl Ysgolion Cynradd Cymru
## Taflen Wybodaeth

Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil.

Bydd y Daflen Wybodaeth hon yn eich helpu i ddeall pam mae'r ymchwil yn cael ei wneud a beth mae'n ei olygu i chi a'ch ysgol os byddwch yn penderfynu cymryd rhan. Darllenwch ef yn ofalus a'i drafod gyda chydweithwyr os dymunwch.

Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol er y bydd eich canlyniadau'n ein helpu i ddeall yr hyn sydd gan ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd o ran polisïau diogelwch rhag yr haul a pha gymorth sydd ei angen arnynt.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am yr astudiaeth ar ôl darllen y Daflen hon, anfonwch e-bost at Arweinydd yr Astudiaeth:

Julie Peconi j.peconi@swansea.ac.uk

**Beth yw pwrpas yr arolwg?**
Bydd yr arolwg hwn yn ein helpu i ddeall y sefyllfa bresennol o ran diogelwch rhag yr haul mewn ysgolion cynradd yng Nghymru a pha gymorth sydd ei angen ar ysgolion yn y maes hwn.

**Pam ydw i wedi cael gwahoddiad?**
Rydych yn bennaeth neu'n aelod arall o staff mewn ysgol gynradd yng Nghymru.

**Oes rhaid i mi gymryd rhan?**
Nac Oes. Mae eich cyfranogiad i'r astudiaeth hon yn gwbl wirfoddol ac nid oes rheidrwydd arnoch i gymryd rhan – eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu.

**Beth sydd angen i mi ei wneud?**
Gofynnir i chi gwblhau'r arolwg byr ar-lein ynghylch diogelwch rhag yr haul yn eich ysgol. Mae pob cwestiwn yn ddewis lluosog, a bydd yn cymryd llai na 10 munud i'w gwblhau.

**A fyddaf yn cael unrhyw dreuliau?**
Na, ond fel arwydd o'n gwerthfawrogiad am gwblhau'r arolwg byddwch yn cael eich cynnwys mewn raffl i ennill £1000 ar gyfer eich ysgol.

**A oes unrhyw sgîl-effeithiau neu anfanteision o gymryd rhan yn yr astudiaeth hon?**
Nac oes.

**A oes unrhyw fanteision i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon?**
Byddwch yn ein helpu i ddarganfod y sefyllfa bresennol mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Byddwch hefyd yn ein helpu i ddeall pa gymorth sydd ei angen ar ysgolion yn y maes hwn.

**A fydd fy nghymryd rhan yn cael ei chadw'n gyfrinachol?**
Bydd. Bydd yr holl wybodaeth a gyflwynwch am eich ysgol yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol. Byddwn yn dilyn arfer moesegol a chyfreithiol yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a bydd yr holl wybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Byddwn yn cyfuno canfyddiadau ac yn adrodd ar ganlyniadau yn ddienw.

**Pwy sydd wedi ariannu a threfnu'r ymchwil?**
Ariennir yr astudiaeth hon gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, cangen ymchwil o Lywodraeth Cymru. Fe'i harweinir gan dîm o ymchwilwyr sydd wedi'u lleoli yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

**Beth sy'n digwydd i ganlyniadau'r arolwg hwn?**

Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi'n ddienw gan dîm ymchwil yr astudiaeth. Pan fydd yr astudiaeth wedi'i chwblhau, gellir cyhoeddi'r canlyniadau mewn cyfnodolyn gwyddonol neu eu cyflwyno mewn cyfarfodydd lleol, cenedlaethol neu ryngwladol. Ni fydd unrhyw gyfranogwyr unigol yn cael eu hadnabod. Os hoffech gael copi o'r canlyniadau cyhoeddedig, nodwch hyn ar eich arolwg.

**Pwy sydd wedi adolygu'r astudiaeth?**
Mae'r astudiaeth hon wedi cael ei hadolygu a'i rhoi barn ffafriol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe ar 1 Chwefror 2022.

**Hysbysiad Preifatrwydd Diogelu Data**
Prifysgol Abertawe yw rheolydd data'r prosiect hwn. Mae Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn goruchwylio gweithgareddau'r brifysgol sy'n cynnwys prosesu data a gellir ei cysylltu yn Swyddfa'r Is-Ganghellor.

Caiff eich data ei brosesu at y dibenion a amlinellir yn y Daflen Wybodaeth hon. Bydd gweithdrefnau moesegol safonol yn golygu eich bod yn rhoi eich caniatâd i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon drwy gwblhau'r arolwg.

Mae'r sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu eich data yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd. Cymeradwyir y cyfiawnhad hwn er budd y cyhoedd gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe, Prifysgol Abertawe.

**Am ba hyd y bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw?**
Bydd data'n cael ei gadw a'i fod yn hygyrch tan 5 mlynedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

**Beth yw eich hawliau?**
Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth, i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth, i gywiro, i ddileu, ac i gyfyngu ar eich gwybodaeth. Ewch i dudalennau gwe Diogelu Data'r Brifysgol i gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau.

Dylid gwneud unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol: -

University Compliance Officer (FOI/DP)
Vice-Chancellor’s Office
Swansea University
Singleton Park
Swansea

SA2 8PP
Ebost: dataprotection@swansea.ac.uk

**Sut i wneud cwyn**
Os ydych yn anhapus â'r ffordd mae eich data wedi'i brosesu, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn dal yn anhapus, yna mae gennych yr hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF
www.ico.org.uk

**Diolch am eich amser yn darllen y Daflen Wybodaeth hon.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am yr astudiaeth hon, anfonwch e-bost at Arweinydd yr Astudiaeth:

Julie Peconi **j.peconi@swansea.ac.uk**